CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3157 (Cy.274)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 8 o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000 ("Deddf 2000") yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol (fel y'i diffinir yn adran 9 o'r Ddeddf honno), drwy Orchymyn, addasu is-ddeddfwriaeth at ddibenion awdurdodi neu hwyluso'r defnydd o gyfathrebu electronig.

At ddibenion adran 8 o Ddeddf 2000, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), yn rhinwedd adran 10(2) o Ddeddf 2000, arfer y pŵer i wneud Gorchmynion i'r graddau bod y pŵer hwnnw yn cael ei arfer at un o'r dibenion a geir yn adran 10(3) o Ddeddf 2000.

Mae adran 10(5) o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol pan fydd yn arfer y pŵer hwn i wneud Gorchmynion. Mae cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi'i sicrhau.

Mae swyddogaethau y mae adran 10(3) o Ddeddf 2000 yn gymwys iddynt, ac sy'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn, i'w cael mewn rheoliadau a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy arfer ei bwerau o dan-

(a) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9) ("y Ddeddf Adeiladau Rhestredig"), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); a

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3157 (W.274)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No. 2) Order 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 8 of the Electronic Communications Act 2000 ("the 2000 Act") empowers the appropriate Minister (as defined in section 9 of that Act), by Order, to modify subordinate legislation for the purpose of authorising or facilitating the use of electronic communications.

For the purposes of section 8 of the 2000 Act, the National Assembly for Wales ("the National Assembly") may, by virtue of section 10(2) of the 2000 Act, exercise the Order-making power insofar as the exercise of that power is for one of the purposes contained in section 10(3) of the 2000 Act.

Section 10(5) of the 2000 Act requires the National Assembly to secure the consent of the Secretary of State when it exercises this Order-making power. The consent of the Secretary of State for Wales has been secured.

Functions to which section 10(3) of the 2000 Act applies, and which are relevant to this Order, are contained in regulations made by the National Assembly in the exercise of its powers under the-

(a) Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (c.9) ("the Listed Buildings Act"), by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); and

(b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) ("y Ddeddf Cynllunio"), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (fel y'i amrywiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2003/390) (Cy.5)).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, ac Atodlen 1 iddo, yn addasu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/390) (Cy.52).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, ac Atodlenni 2 a 3 iddo, yn addasu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/394) (Cy.53) a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/395) (Cy.54).

Mae diwygiadau tebyg i'r rhai a wneir gan y Gorchymyn hwn yn cael eu gwneud, drwy orchymyn, gan-

(a) y Cynulliad Cenedlaethol (gyda chydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru), i Ddeddfau a rheoliadau sy'n ymwneud â chynllunio, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru; a

(b) yr Arglwydd Ganghellor, i reolau gweithdrefnol a wnaed ganddo mewn perthynas ag apelau cynllunio yng Nghymru.

(b) Town and Country Planning Act 1990 (c.8) ("the Planning Act"), by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) (as varied by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) (W.5)).

Article 2 of, and Schedule 1 to, this Order modify the Town and Country Planning (Referrals and Appeals) (Written Representations Procedure) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/390) (W.52).

Article 3 of, and Schedules 2 and 3 to, this Order modify the Town and Country Planning (Enforcement Notices and Appeals) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/394) (W.53) and the Town and Country Planning (Enforcement) (Written Representations Procedure) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/395) (W.54).

Similar amendments to those being made by this Order are being made, by Order, by the-

(a) National Assembly (with the consent of the Secretary of State for Wales), to planning-related Acts and regulations insofar as they apply to Wales; and

(b) Lord Chancellor, to procedural rules made by him in relation to planning appeals in Wales.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3157 (Cy.274)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *30 Tachwedd 2004* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2005* |

GAN FOD Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl iddo ystyried y ffaith bod natur ei awdurdodiad drwy'r Gorchymyn hwn ar gyfer defnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig at unrhyw ddiben yn golygu na fyddai'r graddau y byddai cofnodion o bethau sydd wedi'u gwneud i'r diben hwnnw ar gael, os o gwbl, yn llai boddhaol yn yr achosion hynny pan ddefnyddir cyfryngau cyfathrebu electronig nag y byddent mewn achosion eraill

YN AWR FELLY, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 8, 9 a 10 o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**a**), a gyda chydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru(**b**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004 a daw i rym ar 1 Ionawr 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i dir yng Nghymru.

(a) 2000 p.7. At ddibenion y Gorchymyn hwn, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5), mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y swyddogaethau perthnasol yn, neu o dan, Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9).

(b) Gweler adran 10(5) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000 (p.7).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3157 (W.274)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No. 2) Order 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *30 November 2004* |
| *Coming into force* | *1 January 2005* |

WHEREAS the National Assembly for Wales, having considered that its authorisation by this Order of the use of electronic communications for any purpose is such that the extent, if any, to which records of things done for that purpose will be available will be no less satisfactory in cases where use is made of electronic communications than in other cases

NOW THEREFORE, the National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 8, 9 and 10 of the Electronic Communications Act 2000(**a**), and with the consent of the Secretary of State for Wales(**b**), hereby makes the following Order:

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) This Order may be cited as the Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No. 2) Order 2004 and comes into force on 1 January 2005.

(2) This Order applies to land in Wales.

(a) 2000 c.7. For the purposes of this Order, by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) (W.5), the National Assembly exercises the relevant functions in, or under, the Town and Country Planning Act 1990 (c.8) and the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (c.9).

(b) See section 10(5) of the Electronic Communications Act 2000 (c.7).

**Diwygio rheoliadau sy'n ymwneud ag apelau cynllunio**

**2**. Diwygir Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003(**a**) yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Diwygio rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi ac apelau**

**3**.-(1) Diwygir Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003(**b**) yn unol ag Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Diwygir Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003(**c**) yn unol ag Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**ch**)

30 Tachwedd 2004

**Amendment of regulations relating to planning appeals**

**2**. The Town and Country Planning (Referrals and Appeals) (Written Representations Procedure) (Wales) Regulations 2003(**a**) are amended in accordance with Schedule 1 to this Order.

**Amendment of regulations relating to enforcement notices and appeals**

**3**.-(1) The Town and Country Planning (Enforcement Notices and Appeals) (Wales) Regulations 2003(**b**) are amended in accordance with Schedule 2 to this Order.

(2) The Town and Country Planning (Enforcement) (Written Representations Procedure) (Wales) Regulations 2003(**c**) are amended in accordance with Schedule 3 to this Order.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**d**).

30 November 2004

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 2003/390 (Cy.52).
(b) O.S. 2003/394 (Cy.53).
(c) O.S. 2003/395 (Cy.54).
(d) 1998 p.38.

(a) S.I. 2003/390 (W.52).
(b) S.I. 2003/394 (W.53).
(c) S.I. 2003/395 (W.54).
(d) 1998 c.38.

## ATODLEN 1

Erthygl 2

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003**

**1**. Ailrifer rheoliad 2 (dehongli) yn rheoliad 2(1) ac, yn y diffiniad a geir ynddo o "holiadur", ar ôl y geiriau "Rheoliadau hyn", mewnosoder-

", ac, at y diben hwn, cymerir fod ffurflen wedi'i darparu pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i chyhoeddi ar wefan ac wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol-

(a) ei fod wedi cyhoeddi'r ffurflen ar y wefan;

(b) o gyfeiriad y wefan; ac

(c) ymhle ar y wefan y gellir dod o hyd i'r ffurflen a sut y gellir ei chyrchu.".

**2**. Ar ôl rheoliad 2(1), ychwaneger-

"(2) Yn y Rheoliadau hyn, ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebu electronig at unrhyw ddiben yn y Rheoliadau hyn y mae modd ei gyflawni yn electronig,-

(a) bydd yr ymadrodd "cyfeiriad" yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebu o'r fath, ac eithrio pan fydd y Rheoliadau hyn yn gosod rhwymedigaeth ar unrhyw berson i roi enw a chyfeiriad i unrhyw berson arall, ni fydd y rhwymedigaeth wedi'i chyflawni oni roddir cyfeiriad post gan y person sydd o dan y rwymedigaeth;

(b) bydd cyfeiriadau at hysbysiadau, sylwadau neu ddogfennau eraill, neu at gopïau o'r fath bethau, yn cynnwys cyfeiriadau at y pethau hynny, neu at gopïau ohonynt, ar ffurf electronig.

(3) Bydd paragraffau (4) i (7) yn gymwys pan fydd person yn defnyddio cyfrwng cyfathrebu electronig er mwyn cyflawni unrhyw ofyniad sydd yn y Rheoliadau hyn i roi neu i anfon unrhyw ddatganiad, hysbysiad neu ddogfen arall at unrhyw berson arall ("y derbyniwr").

(4) Cymerir y bydd y gofyniad wedi'i gyflawni pan fydd yr hysbysiad neu ddogfen arall a drosglwyddir drwy gyfrwng cyfathrebu electronig-

(a) yn gallu cael ei gyrchu neu ei chyrchu gan y derbyniwr,

(b) yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys; ac

(c) yn ddigon parhaol fel bod modd cyfeirio ato neu ati yn nes ymlaen.

## SCHEDULE 1

Article 2

**Amendment of the Town and Country Planning (Referrals and Appeals) (Written Representations Procedure) (Wales) Regulations 2003**

**1**. Renumber regulation 2 (interpretation) as regulation 2(1) and, in the definition of "questionnaire" contained therein, after the word "Regulations", insert-

"; and, for this purpose, a form is taken to be supplied where the National Assembly has published it on a website and has notified the local planning authority of-

(a) publication of the form on the website;

(b) the address of the website; and

(c) the place on the website where the form may be accessed and how it may be accessed".

**2**. After regulation 2(1), add-

"(2) In these Regulations, and in relation to the use of electronic communications for any purpose of these Regulations which is capable of being effected electronically,-

(a) the expression "address" includes any number or address used for the purposes of such communications, except that, where these Regulations impose an obligation on any person to provide a name and address to any other person, the obligation is not fulfilled unless the person on whom it is imposed provides a postal address;

(b) references to notices, representations or other documents, or to copies of such things, include references to such things or copies of them in electronic form;

(3) Paragraphs (4) to (7) apply where an electronic communication is used by a person for the purpose of fulfilling any requirement in these Regulations to give or send any statement, notice or other document to any other person ("the recipient").

(4) The requirement will be taken to be fulfilled where the notice or other document transmitted by means of the electronic communication is-

(a) capable of being accessed by the recipient;

(b) legible in all material respects; and

(c) sufficiently permanent to be used for subsequent reference.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys" yw bod yr wybodaeth a geir yn yr hysbysiad neu'r ddogfen arall ar gael i'r derbyniwr i raddau nad ydynt yn llai na phe bai wedi ei hanfon neu ei rhoi drwy gyfrwng dogfen ar ffurf brintiedig.

(6) Os cafwyd y cyfathrebiad electronig gan y derbyniwr y tu hwnt i oriau busnes y derbyniwr, cymerir ei fod wedi'i gael ar y diwrnod gwaith nesaf; ac, at y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad ydyw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall.

(7) Bydd gofyniad yn y Rheoliadau hyn y dylai unrhyw ddogfen fod yn ysgrifenedig wedi'i gyflawni os bydd y ddogfen honno'n cwrdd â'r meini prawf a geir ym mharagraff (4); ac mae "yn ysgrifenedig" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.".

**3**. Yn rheoliad 3 (cymhwyso'r Rheoliadau), ychwaneger ar ôl paragraff (2)-

"(2A) Pan fydd apelydd (neu, yn ôl y digwydd, yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol) yn rhoi gwybod felly i'r Cynulliad Cenedlaethol gan ddefnyddio cyfrwng cyfathrebu electronig, cymerir bod yr apelydd wedi cytuno-

(a) defnyddio cyfathrebiadau tebyg at holl ddibenion y Rheoliadau hyn o ran yr apêl a'r rheini'n gyfathrebiadau y mae modd eu cyflawni'n electronig;

(b) mai cyfeiriad yr apelydd at ddibenion cyfathrebu felly yw'r cyfeiriad a ymgorfforwyd yng ngohebiaeth yr apelydd wrth hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r cyfeiriad y mae'n rhesymol ei gysylltu fel arall â'r ohebiaeth honno; ac

(c) y bydd cytundeb tybiedig yr apelydd o dan y paragraff hwn yn parhau hyd nes iddo hysbysu ei fod yn dymuno dirymu ei gytundeb yn unol â rheoliad 12A,

ac ni fydd y cyfeiriadau a geir ym mharagraffau (1) a (2) o'r rheoliad hwn at benderfynu apêl ar sail sylwadau ysgrifenedig i'w cymryd fel pe baent yn eithrio defnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig, yn unol â'r paragraff hwn a rheoliad 2.".

**4**. Yn rheoliad 7 (sylwadau), ychwaneger ar y diwedd-

"(9) Pan fydd parti y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn dewis defnyddio cyfrwng cyfathrebu electronig i gyflwyno, anfon, copïo neu anfon copi o unrhyw sylwadau, holiadur neu ddogfen arall, bydd y rheoliad hwn yn effeithiol yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ganlyn-

(a) os yr awdurdod cynllunio lleol yw'r parti

(5) In paragraph (4), "legible in all material respects" means that the information contained in the notice or other document is available to the recipient to no lesser extent than it would be if sent or given by means of a document in printed form.

(6) Where the electronic communication is received by the recipient outside the recipient's business hours, it will be taken to have been received on the next working day; and, for this purpose, "working day" means a day which is not a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday.

(7) A requirement in these Regulations that any document should be in writing is fulfilled where that document meets the criteria in paragraph (4); and "written" and cognate expressions are to be construed accordingly.".

**3**. In regulation 3 (application of the Regulations), after paragraph (2), add-

"(2A) Where an appellant (or, as the case may be, the appellant and the local planning authority) so informs the National Assembly using electronic communications, the appellant will be taken to have agreed-

(a) to the use of such communications for all purposes of these Regulations relating to the appeal which are capable of being carried out electronically;

(b) that the appellant's address for the purpose of such communications is the address incorporated into, or otherwise logically associated with, the appellant's communication so informing the National Assembly; and

(c) that the appellant's deemed agreement under this paragraph will subsist until the appellant gives notice in accordance with regulation 12A of a wish to revoke the agreement,

and the references in paragraphs (1) and (2) of this regulation to an appeal being disposed of on the basis of written representations will not be taken to preclude the use of electronic communications in accordance with this paragraph and regulation 2.".

**4**. In regulation 7 (representations), at the end, add-

"(9) Where a party to which this regulation applies elects to use electronic communications for submitting, sending, copying, or sending a copy of any representations, questionnaire or other document, this regulation has effect subject to the following modifications-

(a) where the party so electing is the local

sy'n dewis gwneud hynny, yn lle'r geiriau "2 gopi o'r" ym mharagraff (3), rhodder y gair "y", a dileer y geiriau "2 gopi o" ym mharagraff (7);

(b) os yr apelydd yw'r parti sy'n dewis gwneud hynny, yn lle'r geiriau "2 gopi o'r" ym mharagraff (4), rhodder y gair "y", a dileer y geiriau "2 gopi o" ym mharagraff (7).".

**5**. Yn lle rheoliad 12 (trosglwyddo dogfennau), rhodder-

"**12**. Caniateir anfon neu gyflenwi hysbysiadau neu ddogfennau y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir eu hanfon neu eu cyflenwi o dan y Rheoliadau hyn-

(a) drwy'r post; neu

(b) drwy gyfrwng cyfathrebu electronig i drosglwyddo'r hysbysiad neu'r ddogfen (yn ôl y digwydd) at berson yn y cyfeiriad y caiff y person hwnnw ei bennu at y diben hwn am y tro.".

**6.** Ar ôl rheoliad 12, mewnosoder-

**"Tynnu'n ôl gydsyniad i ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig**

**12A**. Os na fydd person yn fodlon derbyn defnyddio cyfathrebu electronig mwyach at unrhyw ddiben o dan y Rheoliadau hyn y mae modd ei gyflawni'n electronig, rhaid i'r person hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig-

(a) yn tynnu yn ôl unrhyw gyfeiriad a hysbyswyd i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i'r awdurdod cynllunio lleol at y diben hwnnw; neu

(b) yn dirymu unrhyw gytundeb a wnaed gyda'r Cynulliad Cenedlaethol neu gydag awdurdod cynllunio lleol at y diben hwnnw,

a bydd y tynnu yn ôl neu'r dirymu hwnnw yn derfynol, gan ddod yn effeithiol ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad gan y person ond heb fod yn llai na saith niwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad.".

planning authority, the words "2 copies of" in paragraphs (3) and (7) are omitted;

(b) where the party so electing is the appellant, the words "2 copies of" in paragraphs (4) and (7) are omitted".

**5**. For regulation 12 (transmission of documents), substitute-

"**12**. Notices or documents required or authorised to be sent or supplied under these Regulations may be sent or supplied by-

(a) post; or

(b) using electronic communications to transmit the notice or document (as the case may be) to a person at such address as may for the time being be specified by that person for such purpose.".

**6**. After regulation 12, insert-

**"Withdrawal of consent to use of electronic communications**

**12A**. Where a person is no longer willing to accept the use of electronic communications for any purpose under these Regulations which is capable of being effected electronically, that person must give notice in writing-

(a) withdrawing any address notified to the National Assembly or to a local planning authority for that purpose; or

(b) revoking any agreement entered into with the National Assembly or with a local planning authority for that purpose,

and such withdrawal or revocation will be final and will take effect on a date specified by the person in the notice but not less than seven days after the date on which the notice is given.".

## ATODLEN 2

Erthygl 3(1)

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003**

**1**. Ailrifer rheoliad 2 (dehongli) yn rheoliad 2(1) a, chyn y diffiniad o "hysbysiad gorfodi" a geir yno, mewnosoder y diffiniad a ganlyn-

"mae i "cyfathrebu electronig" a "cyfathrebiad electronig" yr ystyr sydd i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**a**);".

**2**. Yn rheoliad 4 (nodyn esboniadol i'w anfon gyda chopi o'r hysbysiad gorfodi), ar ddiwedd is-baragraff (a)(ii), mewnosoder-

"; neu, os defnyddir cyfrwng cyfathrebu electronig i anfon yr hysbysiad hwnnw at y Cynulliad Cenedlaethol, drwy anfon yr hysbysiad iddo ar adeg pan fyddai, yn ôl trefn arferol y trosglwyddo, fel arfer yn cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol cyn y dyddiad hwnnw".

**3**. Ar ôl rheoliad 9 (hysbysiad bod pob dogfen sydd ei hangen wedi cyrraedd), mewnosoder-

**"Defnyddio cyfathrebu electronig**

**9A**.-(1) Bydd paragraffau (2) i (6) o'r rheoliad hwn yn gymwys pan ddefnyddir cyfrwng cyfathrebu electronig gan berson at ddiben cyflawni unrhyw ofyniad sydd yn Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn i roi neu i anfon unrhyw ddatganiad, hysbysiad neu unrhyw ddogfen arall at unrhyw berson arall ("y derbyniwr").

(2) Cymerir y bydd y gofyniad wedi'i gyflawni pan fydd y ddogfen a drosglwyddir drwy gyfrwng y cyfathrebu electronig-

(a) yn gallu cael ei gyrchu gan y derbyniwr;

(b) yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys; ac

(c) yn ddigon parhaol fel bod modd cyfeirio ati yn nes ymlaen.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys" yw bod yr wybodaeth a geir yn yr hysbysiad neu'r ddogfen ar gael i'r derbyniwr i raddau nad ydynt yn llai na phe bai wedi'i hanfon neu ei rhoi ar ffurf dogfen brintiedig.

(a) 2000 p.7.

## SCHEDULE 2

Article 3(1)

**Amendment of the Town and Country Planning (Enforcement Notices and Appeals) (Wales) Regulations 2003**

**1**. Renumber regulation 2 (interpretation) as regulation 2(1) and, before the definition of "enforcement notice" contained therein, insert the following definition-

""electronic communication" ("*cyfathrebu electronig" and "cyfathrebiad electronig*") has the meaning given in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(**a**);".

**2**. In regulation 4 (explanatory note to accompany copy of enforcement notice), at the end of sub-paragraph (a)(ii), insert-

"; or, where electronic communications are used to send such notice to the National Assembly, by sending the notice to it at such time that, in the ordinary course of transmission, it would be delivered to the National Assembly before that date".

**3**. After regulation 9 (notice of receipt of all required documents), insert-

**"Use of electronic communications**

**9A**.-(1) Paragraphs (2) to (6) of this regulation apply where an electronic communication is used by a person for the purpose of fulfilling any requirement in Part 3 of these Regulations to give or send any statement, notice or other document to any other person ("the recipient").

(2) The requirement will be taken to be fulfilled where the document transmitted by means of the electronic communication is-

(a) capable of being accessed by the recipient;

(b) legible in all material respects; and

(c) sufficiently permanent to be used for subsequent reference.

(3) In paragraph (2), "legible in all material respects" means that the information contained in the notice or document is available to the recipient to no lesser extent than it would be if sent or given by means of a document in printed form.

(a) 2000 c.7.

(4) Os caiff y derbyniwr y cyfathrebiad electronig y tu hwnt i'w oriau busnes, cymerir ei fod wedi'i gael ar y diwrnod gwaith nesaf; ac, at y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad ydyw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall.

(5) Caiff gofyniad bod yn rhaid i unrhyw hysbysiad neu ddogfen fod yn ysgrifenedig ei gyflawni os bydd y ddogfen honno'n cwrdd â'r meini prawf a geir ym mharagraff (2); ac mae "yn ysgrifenedig" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

(6) Pan fydd person yn apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 6 drwy gyfrwng cyfathrebu electronig, cymerir fod y person wedi cytuno-

(a) defnyddio'r cyfrwng cyfathrebu hynny at yr holl ddibenion sy'n ymwneud â'r apêl y mae modd eu cyflawni drwy gyfrwng electronig;

(b) mai cyfeiriad yr apelydd at ddibenion cyfathrebu felly yw'r cyfeiriad a ymgorfforwyd yn natganiad apelio yr apelydd neu'r cyfeiriad y mae'n rhesymol ei gysylltu fel arall â'r datganiad hwnnw;

(c) y bydd cytundeb tybiedig yr apelydd o dan y paragraff hwn yn parhau hyd nes iddo roi hysbysiad yn unol â rheoliad 12A ei fod yn dymuno dirymu y cytundeb.".

**4**. Yn lle rheoliad 12 (trosglwyddo dogfennau), rhodder-

**"Trosglwyddo dogfennau**

**12**. Caniateir cyflwyno, anfon neu gyflenwi hysbysiadau neu ddogfennau y mae'n ofynnol neu yr awdurdodwyd eu cyflwyno, eu hanfon neu eu cyflenwi o dan y Rheoliadau hyn-

(a) drwy'r post; neu

(b) drwy ddefnyddio cyfrwng cyfathrebu electronig i gyflwyno, anfon neu gyflenwi'r hysbysiad neu'r ddogfen (yn ôl y digwydd) i berson yn y cyfeiriad post y caiff ef ei bennu at y diben hwnnw am y tro.".

**5**. Ar ôl rheoliad 12, mewnosoder-

**"Tynnu'n ôl gydsyniad i ddefnyddio cyfrwng cyfathrebu electronig**

**12A**. Os na fydd person yn fodlon defnyddio cyfathrebu electronig mwyach at unrhyw ddiben o dan y Rheoliadau hyn y mae modd ei gyflawni'n electronig, rhaid i'r person hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig ei fod-

(a) yn tynnu yn ôl unrhyw gyfeiriad a hysbyswyd i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i awdurdod cynllunio lleol at y diben hwnnw; neu

(4) Where the electronic communication is received by the recipient outside the recipient's business hours, it will be taken to have been received on the next working day; and, for this purpose, "working day" means a day which is not a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday.

(5) A requirement that any notice or other document should be in writing is fulfilled where that document meets the criteria in paragraph (2); and "written" and cognate expressions are to be construed accordingly.

(6) Where a person makes an appeal to the National Assembly under regulation 6 using electronic communications, the person will be taken to have agreed-

(a) to the use of such communications for all purposes relating to the appeal which are capable of being carried out electronically;

(b) that the appellant's address for the purpose of such communications is the address incorporated into, or otherwise logically associated with, the appellant's statement of appeal;

(c) that the appellant's deemed agreement under this paragraph will subsist until the appellant gives notice in accordance with regulation 12A of a wish to revoke the agreement.".

**4**. For regulation 12 (transmission of documents), substitute-

**"Transmission of documents**

**12**. Notices or documents required or authorised to be served, sent or supplied under these Regulations may be served, sent or supplied by-

(a) post; or

(b) using electronic communications to serve, send or supply the notice or document (as the case may be) to a person at such address as may for the time being be specified by the person for that purpose.".

**5**. After regulation 12, insert-

"**Withdrawal of consent to use of electronic communications**

**12A**. Where a person is no longer willing to accept the use of electronic communications for any purpose of these Regulations which is capable of being effected electronically, that person must give notice in writing-

(a) withdrawing any address notified to the National Assembly or to a local planning authority for that purpose; or

(b) yn dirymu unrhyw gytundeb a wnaed gyda'r Cynulliad Cenedlaethol neu gydag awdurdod cynllunio lleol at y diben hwnnw,

a bydd y tynnu yn ôl neu'r dirymu hwnnw yn derfynol, gan ddod yn effeithiol ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad gan y person ond heb fod yn llai na saith niwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad.".

## ATODLEN 3

Erthygl 3(2)

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003**

**1**. Ailrifer rheoliad 2 (dehongli) yn rheoliad 2(1) ac-

(a) ar ôl y diffiniad o "awdurdod cynllunio lleol" a geir yn y rheoliad hwnnw, mewnosoder y diffiniad a ganlyn-

"mae i "cyfathrebu electronig" a "cyfathrebiad electronig" yr ystyr sydd i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**a**);";

(b) yn y diffiniad o "holiadur" a geir yn y rheoliad hwnnw, ar ôl y geiriau "Rheoliadau hyn", mewnosoder-

", ac, at y diben hwn, cymerir fod ffurflen wedi'i darparu pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i chyhoeddi ar wefan ac wedi hysbysu awdurdod cynllunio lleol-

(a) ei fod wedi cyhoeddi'r ffurflen ar y wefan;

(b) o gyfeiriad y wefan; ac

(c) ymhle ar y wefan y gellir dod o hyd i'r ffurflen a sut y gellir ei chyrchu;".

**2**. Ar ôl rheoliad 2(1), mewnosoder-

"(2) Yn y Rheoliadau hyn, ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebu electronig at unrhyw ddiben yn y Rheoliadau hyn y mae modd ei gyflawni yn electronig,-

(a) bydd yr ymadrodd "cyfeiriad" yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebu o'r fath, ac eithrio pan fydd y Rheoliadau hyn yn gosod rhwymedigaeth ar unrhyw berson i roi enw a chyfeiriad i unrhyw berson arall, ni fydd y rhwymedigaeth wedi'i chyflawni oni roddir cyfeiriad post gan y person sydd o dan y rwymedigaeth;

(b) bydd cyfeiriadau at hysbysiadau, sylwadau neu ddogfennau eraill, neu at

(a) 2000 p.7.

(b) revoking any agreement entered into with the National Assembly or with a local planning authority for that purpose,

and such withdrawal or revocation will be final and will take effect on a date specified by the person in the notice but not less than seven days after the date on which the notice is given.".

## SCHEDULE 3

Article 3(2)

**Amendment of the Town and Country Planning (Enforcement) (Written Representations Procedure) (Wales) Regulations 2003**

**1**. Renumber regulation 2 (interpretation) as regulation 2(1) and-

(a) after the definition of "document" contained in that regulation, insert the following definition-

""electronic communication" (cyfathrebu electronig" and "cyfathrebiad electronig") has the meaning given in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(**a**);";

(b) in the definition of "questionnaire" contained in that regulation, after the word "Regulations", insert-

"; and, for this purpose, a form is taken to be supplied where the National Assembly has published it on a website and has notified a local planning authority of-

(a) publication of the form on the website;

(b) the address of the website; and

(c) the place on the website where the form may be accessed and how it may be accessed;".

**2**. After regulation 2(1), add-

"(2) In these Regulations, and in relation to the use of electronic communications for any purpose of these Regulations which is capable of being carried out electronically,-

(a) the expression "address" includes any number or address used for the purposes of such communications, except that where these Regulations impose an obligation on any person to provide a name and address to any other person, the obligation is not fulfilled unless the person on whom it is imposed provides the required postal address;

(b) references to notices, representations or other documents, or to copies of such

(a) 2000 c.7.

gopïau o'r fath bethau, yn cynnwys cyfeiriadau at y pethau hynny, neu at gopïau ohonynt, ar ffurf electronig.

(3) Bydd paragraffau (4) a (7) yn gymwys os defnyddir cyfrwng cyfathrebu electronig gan berson er mwyn cyflawni unrhyw ofyniad yn rheoliadau 4 i 8 o'r Rheoliadau hyn y dylai sylwadau neu ddogfennau eraill gael eu hanfon at neu eu cyflwyno i unrhyw berson arall ("y derbyniwr").

(4) Cymerir y bydd y gofyniad wedi'i gyflawni pan fydd y ddogfen a drosglwyddir drwy gyfrwng cyfathrebu electronig-

(a) yn gallu cael ei chyrchu gan y derbyniwr;

(b) yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys; ac

(c) yn ddigon parhaol fel bod modd cyfeirio ati yn nes ymlaen.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys" yw bod yr wybodaeth a geir yn y ddogfen ar gael i'r derbyniwr i raddau nad ydynt yn llai na phe bai wedi'i hanfon neu ei rhoi drwy gyfrwng dogfen ar ffurf brintiedig.

(6) Os cafwyd y cyfathrebiad electronig gan y derbyniwr y tu hwnt i'w oriau busnes, cymerir ei fod wedi'i gael ar y diwrnod gwaith nesaf; ac, at y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad ydyw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall.

(7) Bydd gofyniad yn y Rheoliadau hyn y dylai unrhyw hysbysiad neu ddogfen fod yn ysgrifenedig wedi'i gyflawni os bydd y ddogfen honno'n cwrdd â'r meini prawf a geir ym mharagraff (4); ac mae "yn ysgrifenedig" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny (ac eithrio yn rheoliad 5).".

**3**. Yn rheoliad 3 (cymhwyso'r Rheoliadau hyn), ar ôl paragraff (2), rhodder-

"(2A) Pan fydd apelydd (neu, yn ôl y digwydd, yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol) yn rhoi gwybod felly i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy gyfrwng cyfathrebu electronig, cymerir bod yr apelydd wedi cytuno-

(a) defnyddio'r cyfathrebiadau hynny at holl ddibenion y Rheoliadau hyn, o ran yr apêl, a rheini'n gyfathrebiadau y mae modd eu cyflawni'n electronig;

(b) mai'r cyfeiriad a roddwyd gan yr apelydd at ddibenion cyfathrebu felly yw'r cyfeiriad a ymgorfforwyd yng ngohebiaeth y person hwnnw wrth hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol, neu'r cyfeiriad y mae'n rhesymol ei gysylltu fel arall â'r ohebiaeth honno; ac

documents, include references to such documents or copies of them in electronic form.

(3) Paragraphs (4) to (7) apply where an electronic communication is used by a person for the purpose of fulfilling any requirement in regulations 4 to 8 of these Regulations that representations or other documents should be sent or submitted to any other person ("the recipient").

(4) The requirement will be taken to be fulfilled where the document transmitted by means of the electronic communication is-

(a) capable of being accessed by the recipient;

(b) legible in all material respects; and

(c) sufficiently permanent to be used for subsequent reference.

(5) In paragraph (4), "legible in all material respects" means that the information contained in the document is available to the recipient to no lesser extent than it would be if sent or given by means of a document in printed form.

(6) Where the electronic communication is received by the recipient outside the recipient's business hours, it will be taken to have been received on the next working day; and, for this purpose, "working day" means a day which is not a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday.

(7) A requirement in these Regulations that any notice or document should be in writing is fulfilled where that document meets the criteria in paragraph (4); and (except in regulation 5) "written" and cognate expressions are to be construed accordingly.".

**3**. In regulation 3 (application of these Regulations), after paragraph (2), insert-

"(2A) Where an appellant (or, as the case may be, the appellant and the local planning authority) so informs the National Assembly using electronic communications, the appellant will be taken to have agreed-

(a) to the use of such communications for all purposes of these Regulations relating to the appeal which are capable of being carried out electronically;

(b) that the address provided by the appellant for the purpose of such communications is the address incorporated into, or otherwise logically associated with, that person's communication so informing the National Assembly; and

(c) y bydd cytundeb tybiedig yr apelydd o dan y paragraff hwn yn parhau hyd nes iddo hysbysu ei fod yn dymuno dirymu ei gytundeb yn unol â rheoliad 11A,

ac ni fydd y cyfeiriadau a geir ym mharagraffau (1) a (2) o'r rheoliad hwn at benderfynu apêl ar sail sylwadau ysgrifenedig i'w cymryd fel pe baent yn eithrio defnyddio cyfathrebu electronig yn unol â'r paragraff hwn a rheoliad 2.".

**4**. Yn rheoliad 7 (sylwadau), ychwaneger ar y diwedd-

"(9) Pan fydd parti y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn dewis defnyddio dull cyfathrebu electronig i gyflwyno, anfon, copïo neu anfon copi o unrhyw sylwadau, holiadur neu ddogfen arall, bydd y rheoliad hwn yn effeithiol yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ganlyn-

(a) os yr apelydd yw'r parti sy'n dewis gwneud felly, yn lle'r geiriau "2 gopi o'r" ym mharagraff (3), rhodder y gair "y", a dileer y geiriau "2 gopi o" ym mharagraff (7);

(b) os yr awdurdod cynllunio lleol yw'r parti sy'n dewis gwneud felly, yn lle'r geiriau "2 gopi o'i" ym mharagraff (4), rhodder "ei", a dileer y geiriau "2 gopi o" ym mharagraff (7).".

**5**. Yn lle rheoliad 11 (trosglwyddo dogfennau), rhodder-

**"Trosglwyddo dogfennau**

**11.** Caniateir cyflwyno, anfon neu gyflenwi hysbysiadau neu ddogfennau y mae'n ofynnol neu yr awdurdodwyd eu cyflwyno, eu hanfon neu eu cyflenwi o dan y Rheoliadau hyn-

(a) drwy'r post; neu

(b) drwy gyfrwng cyfathrebu electronig i gyflwyno, anfon neu gyflenwi'r hysbysiad neu'r ddogfen (yn ôl y digwydd) i berson yn y cyfeiriad y caiff ef ei bennu at y diben hwnnw am y tro.".

**6**. Ar ôl rheoliad 11, mewnosoder-

**"Tynnu'n ôl gydsyniad i ddefnyddio dull cyfathrebu electronig**

**11A**. Os na fydd person yn fodlon defnyddio cyfathrebu electronig mwyach at unrhyw ddiben o dan y Rheoliadau hyn y mae modd ei gyflawni'n electronig, rhaid i'r person hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig-

(a) yn tynnu yn ôl unrhyw gyfeiriad a hysbyswyd i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i awdurdod cynllunio lleol at y diben hwnnw; neu

(c) that the appellant's deemed agreement under this paragraph will subsist until notice is given in accordance with regulation 11A of a wish to revoke the agreement,

and the references in paragraphs (1) and (2) of this regulation to an appeal being disposed of on the basis of written representations will not be taken to preclude the use of electronic communications in accordance with this paragraph and regulation 2.".

**4**. In regulation 7 (representations), at the end, add-

"(9) Where a party to which this regulation applies elects to use electronic communications for submitting, sending, copying or sending a copy of any representations, questionnaire or other document, this regulation has effect subject to the following modifications-

(a) where the party so electing is the appellant, the words "2 copies of" in paragraphs (3) and (7) are omitted;

(b) where the party so electing is the local planning authority, the words "2 copies of" in paragraphs (4) and (7) are omitted.".

**5**. For regulation 11 (transmission of documents), substitute-

**"Transmission of documents**

**11**. Notices or documents required or authorised to be served, sent or supplied under these Regulations may be served, sent or supplied by-

(a) post; or

(b) using electronic communications to serve, send or supply the notice or document (as the case may be) to a person at such address as may for the time being be specified by the person for that purpose.".

**6**. After regulation 11, insert-

**"Withdrawal of consent to use of electronic communications**

**11A**. Where a person is no longer willing to accept the use of electronic communications for any purpose of these Regulations which is capable of being effected electronically, that person must give notice in writing-

(a) withdrawing any address notified to the National Assembly or to a local planning authority for that purpose; or

(b) yn dirymu unrhyw gytundeb a wnaed gyda'r Cynulliad Cenedlaethol neu gydag awdurdod cynllunio lleol at y diben hwnnw,

a bydd y tynnu yn ôl neu'r dirymu hwnnw yn derfynol, gan gymryd effaith ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad gan y person ond heb fod yn llai na saith niwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad.".

(b) revoking any agreement entered into with the National Assembly or with a local planning authority for that purpose,

and such withdrawal or revocation will be final and will take effect on a date specified by the person in the notice but not less than seven days after the date on which the notice is given.".

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3157 (Cy.274)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3157 (W.274)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No. 2) Order 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091044-3

9 780110 910444

**£3.00**

W177/12/04 ON